Grwp Diddordeb Yr Amgylchedd Sain Tathan
Ymateb Tîm y Prosiect
Mawrth, 2009

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn gofnod o'r cwestiynau a holwyd a sylwadau a wnaed yn ystod y sesiynau 'Holi ac Ateb' yn y Grwp Diddordeb ar Yr Amgylchedd a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gymunedol Sain Tathan dydd Mawrth 24 Chwefror 2009.

Mae ymateb tîm y prosiect yn dilyn pob cwestiwn a/neu sylw.

Strategaeth Ynni ac Ynni Adnewyddadwy

Ydi biomas yn dechnoleg newydd?

Na, mae'n cael ei ddefnyddio'n eithaf helaeth mewn sawl gwlad Ewropeaidd.

Os oes canolfan ynni ar y safle, fydd gorsaf bwer Aberddawan yn ddiangen?

Na, ni fyddai canolfan ynni ar y safle'n effeithio ar yr angen am orsaf bwer Aberddawan gan y bydd ond yn ddigon o faint i ddarparu pwer ar gyfer y datblygiad arfaethedig ar y safle.

Os fydd y ganolfan ynni'n cynhyrchu mwy o ynni na sydd ei angen ar y safle, a ellir ei werthu?

Gellir. Gellir gwerthu unrhyw ormodiaeth o ynni sy'n cael ei gynhyrchu yn ôl i'r Grid Cenedlaethol.

Ydych chi wedi ystyried defnyddio pympiau sy'n codi gwres o'r ddaear?

Ydym, rydym wedi ystyried hyn. Fodd bynnag mae'r creigwely yn yr ardal hon yn galed iawn ac felly byddai'n costio crocbris i ddrilio trwyddo.

Beth fydd yn digwydd i awyrendy mawr DARA – a fydd gwelliannau gwyrdd yn cael eu gwneud iddo?

Byddwn yn edrych ar y posibilrwydd o ddarparu ynni i'r awyrendy mawr o'r ganolfan ynni gan ostwng y gost a'r defnydd o ynni. Bydd pob un o'r adeiladau sy'n bodoli eisoes fydd yn cael eu defnyddio fel rhan o ystad y coleg yn cael eu huwchraddio i BREAMM Da Iawn.

Oes yna gynlluniau i dyfu cnydau biomas yn lleol?

Byddem yn croesawu a chefnogi unrhyw fentrau i annog tyfu cnydau biomas yng Nghymru.

Pwy fyddai'n darparu'r ganolfan ynni?

Byddem yn disgwyl i un o'r cyflenwyr ynni mawr fod â diddordeb mewn darparu a rheoli'r ganolfan ynni.

Pwy fyddai'n berchen ar y ganolfan ynni?
Mae hyn yn dal i'w benderfynu ond mae'n debygol y bydd y ganolfan ynni'n eiddo naill ai i gonsortiwm Metrix neu i gyflenwr ynni mawr.

Ai dim ond un ganolfan ynni fyddai ar y safle?
Ie. Bydd y ganolfan ynni mewn un lleoliad.

Rwy'n poeni am gludo biomas ar y safle. Fydd y ffordd fynediad newydd wedi ei chwblhau erbyn i'r ganolfan ynni fod yn weithredol?
Bydd. Bydd y ffordd fynediad newydd wedi ei chwblhau cyn y byddai angen cludo biomas i'r safle.

Allai gwastraff gael ei losgi yn y ganolfan ynni?
Gallai ond mae'r asesiadau sydd wedi eu cynnal yn dangos bod mwy o gefnogaeth i waith biomas ar hyn o bryd. Mae gwastraff i bwer/gwres yn gofyn am wahanol ganiatad cynllunio ac ni fydd Metrix yn ymgeisio amdano ar hyn o bryd.

Ydi biomas wir yn wyrdd? Ydi hi'n niweidiol i gyfnewid cnydau âr gyda chnydau ynni?
Mae hyn yn broblem bosib, ond gellir rheoli twf cnydau ynni'n ofalus i sicrhau osgoi problem.

Allai paneli solar gael eu defnyddio yn y ganolfan ynni?
Mae paneli solar wedi eu hystyried ond mae llawer o ynni'n cael ei ddefnyddio i'w cynhyrchu ac mae'r cyfnodau talu nôl i leoliadau yn y DG yn gwneud y gost yn waharddol.

Ydych chi'n ymwybodol bod Gorsaf Bwer Aberddawan yn defnyddio tanwydd biomas? Fyddech chi'n gallu cystadlu gyda nhw am gyflenwad?
Dylai mwy o farchnad ar gyfer biomas greu mwy o gyflenwad ac nid ydym yn rhagweld cystadlu gyda'r orsaf bwer am gyflenwad tanwydd. Ar hyn o bryd rydym yn ymchwilio cadwyn gyflenwi ble gellir prosesu pren gwastraff yn danwydd.

Beth yw'r cynigion ar gyfer unrhyw ludw fyddai'n cael ei greu gan y ganolfan ynni?
Bydd angen i unrhyw ludw sy'n cael ei greu trwy losgi biomas gael ei gludo oddi ar y safle. Fodd bynnag, byddwn yn edrych ar rannu'r trefniadau gwaredu a wneir gan yr orsaf bwer. Mae hefyd cyfle i ailddefnyddio lludw ar gyfer amaethyddiaeth yn lleol.

Sut fydd y biomas yn cael ei gludo i'r safle?
Rhagwelir y bydd y tanwydd yn cael ei gludo ar gerbydau ar y ffordd. Yn ystod y cyfnod prysuraf yn y gaeaf byddai angen cyfwerth a 10 taith i'r safle bob dydd. Fodd bynnag, efallai y byddai cynyddu faint all gael ei storio yn lleihau hyn. Ni fyddai cerbydau'n cael teithio trwy Sain Tathan a byddent yn defnyddio'r ffordd fynediad gogleddol i gyrraedd y safle.

Ble fydd lleoliad y ganolfan ynni?
Bydd y ganolfan ynni yn ymyl awyrendy mawr DARA ger 'twin peaks'. Cafodd y lleoliad hwn ei ddewis am ei bod yn hawdd ei gyrraedd o'r ffordd fynediad gogleddol. Yn ogystal, yn y lleoliad hwn ac o dan gyfeiriad cyffredinol y gwynt byddai unrhyw fwg o'r ffliw llosgi yn cael ei wasgaru'n bennaf i gyfeiriad y caeau agored i'r gogledd-ddwyrain o'r safle ac nid dros ardaloedd adeiledig.

Pa fathau o fiomas sydd yna?
A dweud y gwir, gellir defnyddio unrhyw beth y gellir ei losgi fel biomas. Rydym yn ystyried defnyddio pren, ar ffurf sglodion neu beled, fel tanwydd ar gyfer y ganolfan ynni. Byddai'n dod o goedwigoedd wedi eu rheoli'n lleol neu o bren gwastraff o welyau gwellt ayb. Mae cnydau eraill y gellir eu defnyddio ar gyfer tanwydd fe Miscanthws neu Helygen wedi eu tyfu mewn coedlannau cylchdro byr ac rydym mewn trafodaethau gyda Phrifysgol Caerdydd ynglyn â'i ymchwil i'r cnwd gorau ar gyfer yr hinsawdd leol. Fodd bynnag, byddai'r dechnoleg fydd yn cael ei defnyddio'n ein galluogi i newid tanwydd yn dibynnu ar beth fyddai ar gael.

Ble fyddai tanwydd yn cael ei storio?
Byddai tanwydd yn cael ei storio mewn ysgubor tair ochrog yn agos at y ganolfan ynni a byddai'n cael ei fwydo'n syth i'r llosgwyr.

Sut fyddwch chi'n ymdopi gyda galw brig yn y gaeaf?
Bydd y ganolfan ynni o faint all gwrdd â'r galw am wres (bydd y galw brig yn y boreau pan fydd angen gwres i'r cawodydd). Hefyd bydd cyflenwad nwy wrth gefn os oes ei angen.

Teithio Gwyrdd

Sut fydd y Cynllun Teithio Gwyrdd yn cael ei weithredu, yn arbennig o ran cynnal llwybrau bysus?
Byddwn yn rhyngwynebu gyda Chyngor Bro Morgannwg a chwmnïau bysus a threnau lleol i sefydlu a rheoli'r Cynllun Teithio Gwyrdd ar sail barhaus. Byddwn hefyd yn sicrhau bod y cydlynydd teithio'n cydweithio gyda chwmnïau bysus Cyngor Bro Morgannwg i sicrhau bod arferion gorau'n cael eu cynnal.

Ar hyn o bryd mae Cyngor Cymunedol Sain Tathan yn gweithio ar Gynllun Teithio (East Vale i ysgol y pentref, y gofeb a'r traeth lleol). Byddai'r Cyngor yn hoffi gweithio gyda'r tîm prosiect i sicrhau synergedd gyda'r Cynllun Teithio Gwyrdd ehangach.
Byddwn yn gweithio gyda Chyngor Cymunedol Sain Tathan fel bo'r gofyn i sicrhau cydlyniant.

Pam nad oedd y cyflwyniad ar Deithio Gwyrdd yn cynnwys mwy o wybodaeth ar sut y bydd trafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei wella?
Bydd y Cynllun Teithio Gwyrdd yn edrych ar bob agwedd o deithio ac nid trafnidiaeth gyhoeddus yn unig.

Dwi ddim yn credu bod y Cynllun Teithio Gwyrdd yn mynd yn ddigon pell - pam na ddywedwch chi fod peidio defnyddio ceir yn amod cyflogaeth?
Trwy'r Cynllun Teithio Gwyrdd allwn ni ond annog pobl i ddefnyddio opsiynau teithio gwyrdd. Nid yw'n briodol i ni ei ddefnyddio fel cyfle i ddeddfu. Fodd bynnag mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cadarnhau na fydd y rhai hynny fydd yn byw yn y Llety ar gyfer Teuluoedd sy'n Gwasanaethu yn cael cynnig pas car ar gyfer y Coleg Technegol Amddiffyn oni bai bod hynny'n hanfodol o ran gweithrediadau.

A fydd cydlynwyr teithio'n cael eu cyflogi gan Gyngor Bro Morgannwg?
Bydd Metrix yn cyflogi cydlynydd teithio.

A fydd gan y cydlynwyr teithio ddigon o gymhelliad i wella pethau?
Bydd. Bydd ganddynt yr un cymhelliad a staff eraill Matrix o ran perfformiad

Mae angen i chi gynyddu'r nifer o orsafoedd trenau i gefnogi'r cynnydd yn y boblogaeth.
Nid oes gennym gynlluniau i gynyddu nifer y gorsafoedd trenau ar hyn o bryd ond rydym yn ymchwilio i ddarparu bws gwennol bob hanner awr rhwng gorsaf Llanilltud Fawr a'r safle ar adegau brig.

Ydi'r datrysiadau ffyrdd ar gyfer ailddatblygiad Sain Tathan yn gysylltiedig gyda'r ffordd arfaethedig newydd i Faes Awyr Caerdydd?
Na, nid oes cysylltiad uniongyrchol. Fodd bynnag, bydd y ddau yn cael eu hystyried yn natblygiad datrysiad cyffredinol ar gyfer de ddwyrain Cymru.

Ydi llwybrau beicio'n cael eu hystyried fel datrysiad?
Ydyn. Bydd llwybrau beicio'n cael eu gwella fel rhan o'r cynllun

A fydd pobl yn gweithio yn y Coleg Technegol Amddiffyn yn gorfod teithio i'r safle?
Mae'n amhosib rhoi ateb terfynol yn y cyfnod cynnar hwn. Fodd bynnag, bydd pethau fel lleoli tai gweithwyr SFA allweddol yn agos at y safle yn helpu i leihau'r nifer o bobl sy'n gyrru i'r safle.

Fydd unrhyw welliannau'n cael eu gwneud i lwybrau lleol i'r Arfordir Treftadaeth?
Nid yw'r Arfordir Treftadaeth yn uniongyrchol gysylltiedig gydag ailddatblygiad MOD Sain Tathan.

Pam nad ydych chi'n ystyried datrysiad gwahanol i Ffordd Eglwys Brewis? Er enghraifft ffordd fynediad o'r de trwy Ystâd y Weinyddiaeth Amddiffyn?
Bydd y prif fynediad i'r Coleg Technegol Amddiffyn trwy gyfrwng ffordd fynediad newydd a chyffordd yn cael ei hadeiladu oddi ar y B4265 i sicrhau bod gan draffig sy'n teithio i ac o'r safle fynediad ar wahân ac uniongyrchol i'r brif ffordd. Yn ogystal mae cynigion i greu mynediad i ardal ddeheuol y Parc Busnes Awyrofod, wedi ei leoli i'r de i'r rhedfa, o'r B4265. . Mae opsiynau amgen wedi eu hystyried ac wedi eu diystyru am amryw o resymau.

Rheolaeth Dwr Wyneb

Gwnaed y sylwadau canlynol gan y rhai oedd yn bresennol ynglyn ag ardaloedd o bryder arbennig iddynt:

Gileston
- llifogydd oddi ar y caeau i'r de ddwyrain o'r safle, yn ymyl y B4265 o amgylch y lon sy'n arwain at Higher End
- mae'r afon Ddawan yn dioddef o lifogydd llanw

Parc Carafanau
- I'r gogledd o Fferm Millands – bydd llif trostir yn dod i lawr o Lanmaes yn cael ei atal rhag llifo i Nant Boverton

Boverton

- Mae Boverton yn dueddol o gael llifogydd bob rhyw 5 mlynedd
- Mae angen lledaenu'r cwlfert yn Boverton (o dan y sarn)

Ein hymateb
Bydd ffosydd a phyllau sychion yn cael eu gosod i gasglu dwr storm ac yna'i ryddhau yn araf yn ôl i'r ddaear/cyrsiau dwr. Fel rhan o gynigion y datblygiad, bydd angen i bob elfen o'r datblygiad ddarparu rheolaeth dwr wyneb priodol.

Picketson
Os adeiladir adnoddau chwaraeon yma, byddant yn dioddef llifogydd

Ein hymateb
Bydd unrhyw faes chwarae sy'n cael ei adeiladu'n cael ei ddraenio'n dda, gyda gwanhad i atal llifogydd i lawr yr afon, a bydd yn cael ei leoli y tu allan i'r gorlifdir.

Ffordd Eglwys Brewis (nesaf at y lein rheilffordd)
- Mae problemau llifogydd mawr ble mae Boverton a nant Llanmaes yn cwrdd
- Mae'r cwlfert yn aml yn cael ei flocio
- Mae un bwthyn yn arbennig yn dioddef o lifogydd difrifol wedi ei achosi gan ddwr yn rhedeg oddi ar y ffordd ac mae'r perchnogion yn bryderus iawn y bydd y datblygiad yn gwneud hyn yn waeth. Maen nhw hefyd yn pryderu y bydd traffig adeiladu'n defnyddio'r ffordd yn gwneud pethau'n waeth
- Mae cwlfert y rheilffordd yn atal llifiad, gan greu dwr yn sefyll ar y tir isel i fyny'r afon ac mae dwr yn llifo ar y ffordd ac o dan fwa'r rheilffordd
- Mae'r triongl o dir o dan gydlifiad Llanmaes/Boverton yn dueddol o orlifo

Ein hymateb
Bydd ffosydd a phyllau sych yn cael eu gosod ar hyd y rhan hwn o'r ffordd i ddelio gyda'r dwr ffo. Tra bod gwaith adeiladu'n digwydd bydd mesurau draenio dros dro'n weithredol

Fferm Tremains
- Gwnaed y pwynt nad yw Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n gwneud gwaith yn fferm Tremains hyd yn oed yn ymwybodol ac felly ddim yn ystyried y gwaith datblygu newydd yn Sain Tathan (mae'r rhain yn debygol o fod yn staff cyflawni gweithrediadau - h.y. brwsh claear/llaid o'r sianel - dim yn angenrheidiol wedi eu briffio ar yr adeg hon. Cysylltu â'r EA am fwy o wybodaeth.)

Carthffosiaeth
- Mae'r lefel carthffosiaeth eisoes yn rhy uchel ac yn gorlifo mewn sawl lleoliad

Ein hymateb
Bydd gorsaf bwmpio newydd ar safle'r Coleg Technegol Amddiffyn i wasanaethu'r datblygiad a'r ardal gyfagos. Bydd y garthffosiaeth wedyn yn cael ei bwmpio yn syth i orsaf gyfagos i'r gorllewin o'r safle (Gwaith Trin Dwr Cymru Llanilltud Fawr) gan fod y gwaith carthffosiaeth hwn yn ddigon o faint, yn fodern a gydag adnoddau trin da

Y Bont

- Dylai'r bont newydd fod yn llydan ac eang, ymhell uwchben y gorlifdir er mwyn osgoi blocio llifiad
- Bydd hwn yn edrych dros y bwthyn gyferbyn a Church Meadow

Ein hymateb:
Bydd sgrinio o amgylch y bont i leihau ei effaith weledol

Ecoleg

Mae preswyliwr lleol sy'n byw ger Nant Boverton yn poeni am gyfnod adeiladu'r datblygiad.
Rydym yn cydnabod mai'r cyfnod adeiladu sydd fel arfer yn cael yr effaith mwyaf ar ecoleg leol ac rydym wedi cyfrif hynny yn ein hastudiaethau. Bydd y materion hyn yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol.

Oes yna dylluanod ar y safle?
Oes, mae safleoedd nythu tylluanod bach a thylluanod gwyn wedi eu canfod ac rydym wedi lliniaru ar eu cyfer. Mae safleoedd nythodd yn eu lle wedi eu cynnig.

Hoffwn weld cynnydd yn y fioamrywiaeth yn ac o amgylch y safle.
Rydym yn anelu at ddatblygu cynllun blaengar sy'n mynd y tu hwnt i liniaru'n unig. Rydym yn y broses o greu strategaeth liniaru fydd yn cynnwys cryn welliant a bydd hwnnw ar gael i'r cyhoedd ei weld ar wefan y cynllun pan fydd wedi ei gwblhau.

Beth gafodd ei ddarganfod yn ardal Llanilltud Fawr? Pam y cafodd ardal mor fawr ei mesur? Pwy sy'n gyfrifol am yr ardal honno - Dwr Cymru neu Lywodraeth Cynulliad Cymru, gan fod dim un ohonynt yn ymddangos eu bod am gymryd cyfrifoldeb amdano?
At ddiben ecoleg, mae angen mesur ardaloedd mwy o dir ac mae'n debygol y bydd gan y datblygiad ôl troed llai na ffin y tirfesur. Mae hyn oherwydd y gall anifeiliaid deithio dros bellteroedd amrywiol. Mae dadl ar hyn o bryd ynglyn â pha unai Dwr Cymru neu LlCC sy'n gyfrifol am y lein beipiau y cyfeiriodd aelod arall o'r cyhoedd ato, oherwydd hawliau datblygu a ganiateir.

Doedd perchennog tir ddim yn ymwybodol bod mynediad wedi ei roi i gynnal tirfesur ar ei dir.
Cyn cyflawni unrhyw waith tirfesur, anfonwyd llythyrau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i bob perchennog tir yn nodi'r angen am fynediad i'r tir er mwyn ei fesur.

Fydd yna gynllun terfynol yn dangos yr holl wybodaeth ecolegol a ganfuwyd yn ystod y gwaith mesur?
Bydd. Bydd cynllun cryno ar gael. Fodd bynnag, ni all nodi lleoliadau penodol am na allwn warantu diogelwch yr holl rywogaethau os yw'r safleoedd yn hysbys.

A fydd Castleton yn cael ei ddefnyddio fel cwrs golff?
Mae cynlluniau'n esblygu, ond os fydd hynny'n digwydd, dim ond ardal fach o dir Castleton fydd yn cael ei ddefnyddio i ailosod tyllau sydd wedi eu heffeithio gan adeiladu tai SFA ar safle'r stadiwm.

Fydd yna waith i'r de o'r ffordd a sut all hyn effeithio ar yr arfordir?
Na, y B4265 yw ffin ddeheuol y datblygiad.

Roedd preswylwyr lleol am i'r ecolegwyr wybod am y bywyd gwyllt sydd eisoes ar y safle er mwyn sicrhau ei fod wedi ei ystyried- e.e. Glas y Dorlan yn arglawdd Nant Boverton. Hefyd mae ffynnon naturiol ar y safle tu hwnt i'r weiar a ganfuwyd gan spp.
Mae'r bywyd gwyllt a amlygodd preswylwyr hefyd wedi ei ganfod gan yr arolygon ecolegol ond rydym yn croesawu'r defnydd o'r wefan ymgynghori i ddarparu gwybodaeth fydd yn cael ei drosglwyddo i'r ymgynghorwyr perthnasol

Asesiadau Amgylcheddol

Pam fod Llety Teuluoedd sy'n Gwasanaethu (SFA) yn cael ei leoli ar safle tir glas yn hytrach na thir llwyd?
Cafodd y safleoedd eu dewis yn ofalus yn unol â nifer o feini prawf sy'n cael eu defnyddio ar gyfer pob safle ar gyfer SFA, yn cynnwys:
- dyhead i leoli'r SFA yn agos at y CTA er mwyn rhoi'r lleiafswm o bwysau ar y rhwydwaith trafnidiaeth
- i leoli'r SFA yn agos at y CTA ac mewn casgliadau mawr er mwyn sicrhau y gallant gael eu plismona'n effeithiol mewn adegau o ddiogelwch uchel
- i alluogi'r SFA i rannu'r un seilwaith fydd yn cael ei osod i wasanaethu'r CTA a'r PBA
- maen nhw'n gorwedd o fewn y ffin datblygiad ym *Mriff Datblygu Sain Tathan* sydd wedi ei gymeradwyo
- ni fydd defnyddio safleoedd yn Sain Tathan yn gwacau safleoedd sydd wedi eu dyrannu trwy'r CDU i ddiwallu galw cyffredinol am dai ym Mro Morgannwg

Beth oedd maint yr arolwg tirlun – pam nad oedd yn cynnwys dros 100 hectar?
Cynhaliwyd yr Asesiad Cymeriad Tirlun ac Asesiad Gweledol Tirlun o fewn 'ffin o dri chilomedr' i gwmpasu pob ardal oedd a golygfa o safle Sain Tathan. Does dim ardal safonol y mae'n ofynnol ei arolygu.

Rwy'n pryderu y bydd cynnydd mewn gweithgaredd o amgylch y Parc Busnes Awyrofod (PBA), fel profi peiriannau, yn effeithio ar iechyd.
Mae ceisiadau am gynllunio'r PBA a'r CTA yn destun nifer o asesiadau'n archwilio effeithiau posib y datblygiad ar yr amgylchedd - mae'r rhain yn cynnwys ansawdd swn ac aer. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses Asesiad Effaith Amgylcheddol.

Beth fydd y goblygiadau swn o brofi peiriannau yn y PBA?
Mae'r broses Asesiad Effaith Amgylcheddol yn delio gydag effaith swn y PBA a'r CTA, gyda'i gilydd ac ar wahân.

Mae Sain Tathan wedi bod yn faes awyr gweithredol am nifer o flynyddoedd felly nid yw'r hyn yr ydym yn ei gynnig yn hollol newydd. Mae symudiadau awyrennau a phrofi peiriannau'n digwydd bob wythnos. Er bod cynnydd yn symudiadau jetiau masnachol i'w ddisgwyl yn y dyfodol, mae hyn yn dal yn llai na'r nifer o symudiadau jetiau cyflym a welwyd yn y blynyddoedd blaenorol. Er enghraifft roedd dros 2000 o symudiadau jet cyflym yn 2004 ac mae tua 465 ar hyn o bryd tra rhagwelir mai dim ond rhyw 30 symudiad jet cyflym fydd yna yn unol â chynigion newydd y PBA.

Bydd y PBA yn cynnal profion peiriannau ar awyrennau sifilaidd modern ac mae hyd y prawf ar gyfer y rhain yn llai o'i gymharu gydag awyrennau milwrol hyn e.e. yn Cam Un, bydd rhyw 1 awr yr wythnos o brofion peiriannau sifilaidd o'i gymharu â 3 awr yr wythnos ar hyn o bryd ar gyfer yr awyren VC10.

Mae awyrennau milwrol yn aml yn fwy swnllyd nag awyrennau sifilaidd a dylid nodi na chafodd dim o'r adnoddau profi peiriannau milwrol ar y safle eu sgrinio. Bydd adnodd profi'r PBA fodd bynnag yn cynnwys sgrinio acwstig ar dair ochr y man profi er mwyn rheoli'r swn o'r prawf.

Sut fydd yr adeilad rhestredig ar Fferm Batsleys yn cael ei ddefnyddio? Rwy'n pryderu am leoliad yr adeilad.
Mae'r ffermdy yn Adeilad Rhestredig Gradd II a bydd yn cael ei gadw a'i warchod ar gyfer y dyfodol trwy ei ddefnyddio o'r newydd fel canolfan weinyddol newydd ar gyfer y PBA. Bydd hyn yn golygu ei ailwampio a'i estyn yn sensitif er mwyn darparu adnoddau addas. Bydd unrhyw ddatblygiad yn cael ei wneud mewn ymgynghoriad gyda CADW.

Ydi hi'n bosib i Amgueddfa Caerdydd gael gwybodaeth reolaidd am y gwaith archwilio daear parhaus ac yn arbennig tystiolaeth o Deml Rufeinig bosib?
Mae'r archwiliadau archeolegol wedi eu cynnal mewn cydweithrediad agos gyda'r Ymddiriedolaeth Archeolegol leol a CADW a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda nhw.

Ydi hi'n bosib cael cofnod ffotograffig o'r Gwersyll Gorllewin cyn iddo gael ei chwalu?
Mae CADW wedi cysylltu â ni ac mae'n dymuno cynnal arolwg ffotograffaidd o'r holl strwythurau Ail Ryfel Byd sydd i gael eu chwalu